# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins** **Ward: Gorllewin Bracla**

**Plaid: Llafur**

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Gorllewin Bracla ym mis Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.<br><br>Ar hyn o bryd rwy'n eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu ynghyd â Phwyllgorau Craffu 1 a Chraffu 2. Fi hefyd yw cynrychiolydd y cyngor ar Banel Heddlu a Throseddu De Cymru.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â materion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.<br><br>Rhagor o wybodaeth:<br>Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Mynychais Gynhadledd y Blaid Lafur yn Llandudno i glywed o lygad y ffynnon am y polisïau newydd a fydd yn effeithio ar bobl Cymru.<br><br>Rwyf hefyd wedi cyflwyno amrywiaeth o atgyfeiriadau yn fy ward a hefyd o wardiau eraill er mwyn cynorthwyo pobl fy ward. Mae'r rhain wedi cynnwys, materion tai, materion tipio anghyfreithlon, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac eraill.<br><br>Nid wyf bob amser wedi gallu datrys y problemau, ond rwyf wedi ymrwymo i gael y datrysiad gorau o hyd.<br><br>Rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod Trwyddedu er mwyn asesu a yw'n briodol cyhoeddi trwydded i unigolion penodol.<br><br>Rwyf wedi cysylltu â'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) lleol i ddatrys materion lleol megis gyrwyr yn goryrru yn yr ardal a beth gellir ei wneud am y mater hwn. Rwyf hefyd wedi cysylltu â'n cymdeithas dai leol i gynorthwyo pobl gyda'u problemau.<br><br>Rwyf wedi cynnig fy nghymorth i'n clwb ieuenctid lleol. |
| **Y Cynghorydd J Llewellyn-Hopkins:** **Dyddiad: 30 Mehefin 2023** |